



Arolygiaeth Gofal  
**Cymru**  
Care Inspectorate  
**Wales**



**Estyn**

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Ffynnonwen**

**Yr Hen Ysgol  
Login  
Hendyggwyn ar Daf  
Sir Gaerfyrddin  
SA34 0TA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Ffynnonwen

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Ffynnonwen
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	Elizabeth Margaret Lewis (person cofrestredig), Margaret Kelly Rowlands (person cofrestredig)
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Ddim yn berthnasol
Person â gofal	Elizabeth Jane Lewis, Amanda Brookes
Nifer y lleoedd	16
Amrediad oedran y plant	2-4 oed
Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed	10
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	4
Diwrnodau / amseroedd agor	8.15-12.45 Dydd Llun 8.15-3.30 Dydd Mawrth, Mercher, Iau a Gwener
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydi
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	Rhagfyr 2020
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	Chwefror 2016
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	15/11/2022
Mae dros hanner y plant yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd.	

## **Diffyg cydymffurfio**

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## **Argymhellion**

- A1 Mireinio'r cynllunio ar gyfer yr adaloedd dysgu yn enwedig y defnydd o'r tu allan
- A2 Sicrhau bod yr holl blant y cael eu herio'n gyson
- A3 Sicrhau bod yr aseuadau risg yn fwy pwrpasol ar gyfer y lleoliad
- A4 Miniogi'r broses o wirio dogfennau

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles:

Yn gyffredinol, mae gan blant lais pwrpasol yn y lleoliad. Maent yn cael dewis o blith gweithgareddau sydd wedi eu gosod allan ar eu cyfer. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn adeiladu tai ar gyfer y tri mochyn bach gyda phren, gwellt a cherrig ac yn mwyhau dewis pa ganeuon i'w canu. Mae ganddynt lais cadarn iawn wrth greu crefft. Er enghraifft, mae dychymyg a chreadigrwydd bob plentyn unigol yn amlwg yn y darluniau o rocedi amrywiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw eu llais yn ddigon cadarn yn enwedig o ran dewis pryd i ddefnyddio'r ardaloedd tu fewn a thu allan.

Mae bron bob plentyn yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gallu gwneud penderfyniadau da am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae bron bob un yn mwynhau paentio ac yn cael rhyddid i ddewis lliwiau a datblygu syniadau eu hunain. Wrth baratoi picnic ar gyfer amser cinio, gwelwyd y plant yn creu wyneb ar y *tortilla* gan ddefnyddio ciwcymbr fel llygaid a chaws fel gwallt.

Mae bron bob plentyn wedi ffurfio perthynas dda gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u ffrindiau ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd, yn enwedig yn yr ardal tu allan. Er enghraifft, wrth chwarae siop maent yn trin arian ac yn diolch i'w gilydd am y nwyddau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u cyfoedion ac yn meithrin medrau cymdeithasol da. Er enghraifft, ar ôl darllen stori 'Beth nesaf?', maent yn cydweithio'n arbennig o dda wrth ddychmygu teithio i'r lleuad gyda'r tedi ac wrth greu esgidiau a hetiau addas ar gyfer y daith.

Mae bron bob plentyn wir yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau. Er enghraifft, roedd un plentyn yn canolbwyntio am gyfnod estynedig wrth greu sêr mawr a bach gyda thoes ac yn eu cyfrif hyd at 5. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau cyfrif i ddeg yn hyderus a thua hanner yn cyfrif am nôl i sero yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn chwarae'n ddychmygus. Er enghraifft, yn yr ardal adeiladu roedd plant yn mwynhau adeiladu sied i gadw'r roced yn ddiogel ac eisiau cynnwys to symudol fel stadiwm y mileniwm. Maent wrth eu bodd yn gwisgo helmedi a siacedi llachar ac yn dyfalbarhau i adeiladu'r sied.

Mae sgiliau annibyniaeth y rhan fwyaf o blant yn dda iawn. Mae llawer yn gallu rhoi eu hesgidiau glaw ymlaen yn fedrus a bron bob un yn defnyddio'r toiledau'n annibynnol. Maent yn arllwys dŵr a llaeth eu hunain ac yn gwaredu eu gwastraff bwyd yn hollol annibynnol hefyd.

### **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## **Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae pob ymarferydd wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau. Maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau eu bod yn addysgu plant am ddiogelwch ac yn eu goruchwyllo'n ofalus iawn. Er enghraifft, cyn defnyddio beic cydbwyso, maent yn sicrhau bod y plant yn gwisgo helmed. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf perthnasol, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n foddhaol ond nid ydynt bob tro yn sicrhau bod y cofnodion yn ddigon trylwyr. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg yn drylwyr. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn ailymweld â'r rheolau yn gyson iawn fel rhan o amser cylch. Maent yn annog plant i ddeall rheolau ymddygiad syml yn effeithiol, fel rhannu teganau, dweud 'plis' a 'diolch' a gwrando'n astud.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau hyfryd i'r plant ac yn rhoi cyfleoedd pwrpasol iddynt. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfle i fynegi eu hunain yn dda yn y rhan fwyaf o weithgareddau. Fodd bynnag, mae gweithgareddau torfol weithiau yn torri'n ormodol ar lif y gweithgareddau ac yn amharu ar lais y plant. Er enghraifft, wrth i ymarferwyr baratoi i fynd â'r plant allan i chwarae ar adeg benodol, bu'n rhaid i bawb fynd allan gyda'i gilydd er bod un plentyn eisiau cwblhau tasg roedd yn cael hwyl arni.

Mae ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant. Maent yn trin y plant mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner, gan foddelu rhyngweithio parchus a gofalgarg. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr y plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau addas yn eu lle pan fo angen cyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen.

## **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, maent wedi addasu'r ddarpariaeth yn werthfawr mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn sicrhau mwy o gyfleoedd priodol i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i ymestyn eu chwarae am gyfnodau mwy estynedig. Mae gan ymarferwyr

ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac, yn gyffredinol, yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn bwrpasol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol gydag ystod dda o ymwelwyr ac ymweliadau fel oriel leol i ddatblygu medrau creadigol y plant yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o'r ardaloedd dysgu tu fewn ac allanol i ddatblygu holl fedrau'r plant yn gynyddol. Maent yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau fel edrych ar lyfr i drafod y lleuad cyn paentio llun yn datblygu medrau darllen cynnar, llafar a chreadigol y plant yn dda. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro yn gwneud y defnydd mwyaf pwrpasol o'r gwahanol ardaloedd, yn enwedig yr ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac addasu gweithgareddau i ymateb i'w hanghenion yn briodol. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o asesiadau ac arsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, maent yn ystyried asesiadau iaith a lleferydd a gwahanol batrymau ymddygiad ailadroddus wrth chwarae i gynllunio gweithgareddau. Yn ystod gweithgareddau, mae ymarferwyr yn holi'r plant yn bwrpasol i sicrhau eu dealltwriaeth ac, yn yr arfer orau, i'w hannog i feddwl, er enghraifft wrth edrych ar wrthrychau sy'n arnofio a suddo. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn modelu iaith yn gadarn ac yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon i ddatblygu medrau plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro yn herio'r plant yn ddigon effeithiol, yn enwedig wrth ymestyn eu geirfa.

Un o gryfderau'r addysgu yw sut mae arweinwyr yn parchu'r broses creadigol yn hytrach na chanolbwyntio ar y cynnyrch gorffenedig. Mae ymarferwyr yn cynllunio llawer o weithgareddau ysgogol i alluogi'r plant i fynegi eu hunain yn creadigol ac i ddatblygu eu medrau creadigol. Mae ymarferwyr hefyd yn cynllunio gweithgareddau defnyddiol i alluogi'r plant i ddatrys problemau fel darganfod pa esgid sy'n mynd ar ba droed.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd medrus o gyfleoedd sy'n galluogi'r plant i arsylwi ar y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn tynnu sylw'r plant at y lleuad sydd dal yn ymddangos yn ystod y dydd. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd diddorol i blant i ddysgu am Gymru, er enghraifft drwy arsylwi ar yr ardal leol wrth fynd am dro ac wrth ddathlu digwyddiadau fel diwrnod 'Shwmae, Su' mae'.

### **Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol ac yn cael ei lanhau'n ddyddiol. Maent yn sicrhau bod y gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac yn cadw cofnodion yn drefnus. O ganlyniad, mae'r plant yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg, gan gynnwys asesiad risg tân, yn eu lle ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon pwrpasol ar gyfer y tu allan ac nid ydynt yn eu hadolygu yn ddigon effeithiol. Er enghraifft, nid yw

teganau'r ardal fwd yn cael eu gwirio yn unol â'r asesiad risg ac o ganlyniad ceir adnoddau yno sydd yn ddi-raen.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar iawn. Maent yn dathlu gwaith y plant trwy osod eu crefftau unigol o amgylch y brif ystafell. Er enghraifft, mae lluniau o amrywiol rocedi'r plant ar y wal, gyda phob un yn mynegi syniadau'r plant yn unigol. Ceir ffotograffau'r plant ar y wal penblwyddi, yn y gornel cofrestru ac ar eu ffyn byrbryd. Mae hyn oll yn cyfrannu at yr ymdeimlad o berthyn. Mae pegiau yn y cyntedd i'r plant osod eu cotiau a'u bagiau arnynt ond mae tua thraean ohonynt yn rhy uchel i annog annibyniaeth pob plentyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu priodol i bawb. Maent wedi creu ardaloedd pwrpasol i gynnig amrywiaeth o weithgareddau cyffrous sy'n symbylu'r chwarae a'r dysgu. Er enghraifft, ceir llinell amser gyda digwyddiadau'r stori wedi'u trefnu'n gronolegol. Mae hyn yn cyfrannu at y modd mae'r ymarferwyr yn trwytho'r plant yn stori 'Beth nesaf?' i sicrhau dealltwriaeth dda. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gosod yr ardaloedd yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn sicrhau'r llif gorau a manteisio ar yr holl gyfleoedd i ddatblygu medrau'r plant yn y modd mwyaf effeithiol.

Mae'r ardal tu allan yn eang iawn ac yn cynnig amgylchedd hyfryd i'r plant. Mae digonedd o le i chwarae ar y beiciau cydbwyso, i chwarae gemau ac i ddringo. Yn anffodus, nid yw'r arweinwyr yn defnyddio'r ardal i'w lawn botensial er mwyn ategu'r chware a'r dysgu.

Ceir ystod eang o adnoddau ac offer. Mae'r rhain yn briodol i oedran a cham datblygiad y plant ac yn eu herio a'u diddanu'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael mynediad at yr adnoddau, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hyn yn seiliedig ar sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn gwneud cynnydd da mewn amgylchedd diogel, Cymreig. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau ethos cadarnhaol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar y cyfan, mae trefniadau dyddiol a pholisïau'r lleoliad yn addas, er nid ydynt bob tro yn ddigon miniog neu wedi cael eu teilwra'n ddigon penodol i'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn creu ethos cryf o waith tîm. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a chyfrifoldebau'n dda gyda phroses anwytho defnyddiol ar gyfer aelodau newydd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau staffio. Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd yn bwrpasol i sicrhau bod bob ymarferydd yn cyfrannu at asesiadau plant, cynllunio ac i werthuso gwaith y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod cyfranogiad pawb yn cael ei werthfawrogi gyda phawb yn rhannu'r un disgwyliadau uchel.

At ei gilydd, mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant y lleoliad yn syml ac effeithiol. Drwy weithgareddau hunanwerthuso, mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio camau gweithredu synhwyrol ac yn

gwerthuso effaith y gweithgareddau hyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod a gwella agweddau o'r ddarpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw datblygu medrau creadigol y plant yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o weithdrefnau goruchwylio ac arfarnu i adnabod cryfderau'r ymarferwyr a beth sydd angen arnynt i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar y cyfan i ymarferwyr i ddatblygu'n broffesiynol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o hyfforddiant perthnasol i ddatblygu medrau ymarferwyr yn effeithiol. Er enghraifft, roedd yr arweinydd yn rhan o drefniadau Llywodraeth Cymru i lunio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir. Mae wedi defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatblygu rhai o egwyddorion o'r Cwricwlwm i Gymru yn y lleoliad fel sicrhau bod oedolion yn galluogi'r dysgu o fewn yr ardaloedd penodol yn well.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o unrhyw grantiau i wella profiadau ar gyfer plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi gwneud defnydd pwrpasol o grant yr awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). O ganlyniad, maent wedi prynu ystod berthnasol o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu yn dda ac sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh y plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth effeithiol gyda rhieni. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd pwrpasol o ap i rannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd eu plant. Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion lleol i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n esmwyth i mewn i'r ysgol.



## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (<http://careinspectorate.wales>) ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.